## Atodiad A

**Urddas a Gofal Hanfodol:** **Cynllun Gwella**

**Ysbyty:** **Ysbyty Rookwood**

**Ward/ Adran:** **Niwroadsefydlu Ward 7 ac 8**

**Dyddiad yr arolygiad:** **17 a 18 Mehefin 2014**

| Para Cyf | Canfyddiad | Gofyniad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflenwi Hanfodion Gofal** | | | | | |
| 5.7 | Yn ystod triniaeth, gwelsom achos pan nad oedd y llenni ar gau yn llwyr wrth drin claf, ac achos arall lle roedd nodiadau claf wedi cael eu gadael yn agored ar y bwrdd ger y gwely lle roedd yn bosibl i eraill eu gweld. | Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod urddas cleifion yn cael ei barchu bob adeg a bod llenni wedi'u cau'n llwyr yn ystod gofal neu driniaeth ac nad yw nodiadau'n cael eu gadael mewn man amlwg. | Rhaid defnyddio clipiau urddas ar yr holl lenni, gyda bwriad i ddechrau defnyddio llenni tafladwy pan fydd y ward yn cael ei hailwampio.<br><br>Bydd y prif nyrs yn codi ymwybyddiaeth y staff o flaenoriaeth preifatrwydd ac urddas, mewn newyddlen. | James Bigg | Ar unwaith<br><br>Medi 2014 |
| 5.9 | Nid oedd ystafell gwbl breifat na chyfforddus ar gael er mwyn trafod gwybodaeth sensitif â chleifion a/neu berthnasau nac i dorri newyddion trist. Nododd staff y gall fod rhaid iddynt ddefnyddio lolfa'r cleifion ar hyn o bryd a bod perygl i bobl dorri ar eu traws, neu fel arall gofyn i staff adael eu swyddfa. | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cyfleusterau addas ar gael i staff gynnal trafodaethau sensitif a phreifat gyda chleifion a pherthnasau. | Gellir ymdrin â'r mater o gael cyfleusterau i deuluoedd ac ystafell dawel fel rhan o ailwampio'r ward | James Bigg | Dechrau Medi 2014 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.12 | Dywedodd cleifion wrthym y byddent yn hoffi mwy o weithgareddau a fyddai'n ysgogi'r ymennydd ar y ward, fel Bingo. Nododd rhai aelodau staff y byddai cleifion yn elwa o fwy o ysgogiadau ymenyddol fel gweithgareddau grŵp wedi'u strwythuro i adlewyrchu'r gweithgareddau y byddent yn rhan ohonynt y tu allan i'r ysbyty, er enghraifft Bingo. | Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried sut y gallai ddarparu ffocws cryfach ar adferiad mwy cynhwysfawr a fyddai'n cynnwys mwy o weithgareddau strwythurol i'r ymennydd yn ogystal â gweithgareddau corfforol. | Bydd y nyrs arwain yn ymchwilio i ddefnyddio gwirfoddolwyr i weithio gyda chleifion i liniaru diflastod ac i'w hysgogi'n feddyliol.<br><br>Wrth ailwampio bydd cyfleusterau'r ystafell ddydd yn cael eu gwella | Rachel Barry<br><br>Ian Fitsall | Medi 2014<br><br>I ddechrau |
| 5.17 | Gwnaeth staff nodi bod dillad gwely glân yn cael eu dosbarthu unwaith yr wythnos, fodd bynnag, nid oedd nifer y dillad gwely yn ddigonol weithiau ar gyfer yr wythnos ac roedd staff wedi cael anawsterau wrth ddod o hyd i ddillad gwely ychwanegol gan wardiau eraill. | Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan y ward stoc ddigonol o ddillad gwely bob amser. | Dylid annog trafodaethau â Gwasanaethau Golchi a darparu ffurflenni digwyddiad er mwyn darganfod maint y broblem. Bydd staff uwch yn cyfathrebu â gwasanaethau golchi er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn ddigonol | James Bigg | Ar unwaith |
| 5.25 | Roedd gan un o'r ystafelloedd cawod ar ward 7 offer priodol, fodd bynnag, nododd staff fod yr ystafell yn rhy fach ar gyfer nifer y staff | Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried gofynion y gofod yn yr ystafell gawod a sicrhau ei bod yn bodloni anghenion | Wrth ailwampio caiff ystafell wlyb ychwanegol ei gosod, a thynnir ymaith yr ystafell fach â chawod. | Ian Fitsall | I'w ddechrau ddiwedd mis Medi 2014 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | angenrheidiol i ymgymryd â thasgau codi a chario. | y grŵp cleifion. | | | |
| 5.28 | Gwelsom nad oedd amser bwyd yn cael ei arwain gan aelod penodol o staff nyrsio; nid oedd y cleifion wedi cael eu paratoi ar gyfer amser bwyd cyn i'r troli gyrraedd ac ni chynigiwyd clytiau diheintio i'r dwylo/cyfle i ymolchi dwylo cyn eu pryd bwyd. | Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cleifion yn cael cynnig clytiau diheintio i'r dwylo neu gynnig ymolchi eu dwylo a'u paratoi ymlaen llaw er mwyn osgoi oedi diangen cyn darparu bwyd i'r cleifion. | Caiff Amserau Bwyd Gwarchodedig eu hailgyflwyno gyda band 6 i arwain.<br><br>Ymchwilio i brynu clytiau dwylo tafladwy i'r cleifion eu defnyddio cyn bwyta | Erica Davies<br><br>James Bigg | Awst 2014 (Wedi dechrau)<br><br>Wedi'i gyflawni |
| 5.39 | Mewn un tŷ bach roedd cordyn y larwm argyfwng yn llawer rhy bell oddi wrth y tŷ bach pe bai angen i un o'r cleifion ei ddefnyddio. | Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod larymau argyfwng y tai bach o fewn gafael i'r cleifion. | Angen symud cordyn y larwm wrth ailwampio'r ward<br><br>Rhaid i staff y ward gyfeirio cleifion i'r tai bach agosaf nes y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau | Ian Fitsall<br><br>James Bigg | Dechrau diwedd Medi 2014<br><br>Ar unwaith |
| **Ansawdd Rheoli Staff ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 5.44 | Mae'r egwyddorion arweiniol i staff nyrsio a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru yn nodi na ddylai mwy na saith o gleifion gael eu clustnodi i bob nyrs gofrestredig ar ward feddygol yn ystod y dydd. Er bod staffio ar ddiwrnod ein harolygiad yn ymddangos yn ddigonol, | Dylai'r Bwrdd Iechyd ymgymryd ag adolygiad o'r lefelau staffio cyfredol i sicrhau eu bod yn ddigonol, o ystyried natur gymhleth y grŵp cleifion | Bydd y prif nyrs yn ymchwilio i sgôr ddibyniaeth ac aciwtedd a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer mannau adsefydlu.<br><br>Caiff y meini prawf ar gyfer derbyn eu hadolygu er mwyn ystyried | James Bigg<br><br>Angela Chaulk | Gwaith i ddechrau Diwedd Medi 2014 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gwelsom y gallai dibyniaeth y cleifion newid oherwydd eu hanghenion cymhleth a nododd staff y byddent yn dymuno gweld cynnydd yn nifer y nyrsys er mwyn ymdrin ag anghenion newidiol cleifion o fewn y ward niwroadsefydlu arbenigol hon. | | dibyniaeth cleifion a chapasiti'r tîm amlddisgyblaethol | | |
| **Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 5.51 | Nodwyd gennym fod amser gyda'r ffisiotherapydd yn gyfyngedig oherwydd prinder staff yn y maes hwn a dywedodd y staff wrthym nad oedd yn bosibl i ddarparu popeth i'r holl gleifion oherwydd y prinder hwn. | Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu gofynion ffisiotherapi'r grŵp cleifion a phenderfynu a oes angen darpariaeth ychwanegol. | Adolygu'r sefydliad a meincnodi gydag unedau Anafiadau i'r Ymennydd eraill er mwyn darganfod a yw'r lefelau staffio yn briodol ar gyfer y cymysgedd achosion. Cynhaliwyd adolygiad ehangach o'r sefydliad therapïau hefyd.<br><br>Gan gydnabod bod arferion o fewn amgylchedd y ward yn rhan fawr o adsefydlu, mae angen ymchwilio i rôl gweithwyr cymorth drwy gynllun gweithlu integredig. | Alun Morgan | Awst 2014 - adolygiad o'r sefydliad wedi'i gwblhau a bellach wrthi'n meincnodi.<br><br>31 Hydref 2014 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.54 | Roedd cryn dipyn o annibendod ar y ward ac roedd yr offer yn aml yn rhwystr i'r staff nyrsio a'r staff glanhau am eu bod yn gorfod eu symud o un lle i'r llall er mwyn cyflawni eu dyletswyddau. | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod offer yn cael ei storio'n briodol ac nad yw'n creu annibendod ar y ward | Gan fod eitemau mawr yn cael eu dosbarthu, nodwyd bod cael lle ar gyfer storio'n broblem. Fel rhan o'r gwaith o ailwampio, bydd lle ychwanegol ar gael ar gyfer storio ar ward 8.<br><br>Caiff bocsys eu rhoi i gadw yn y nos nes y bydd y gwaith o adsefydlu'n gyflawn | Ian Fitsall<br><br>James Bigg | Diwedd Medi 2014<br><br>Cwblhawyd |
| 5.55 | Gwelsom fod y golchfeydd yn anniben ac roedd nifer o eitemau ar y ward wedi torri ac roedd angen cael gwared arnynt. Roedd rhai o'r eitemau wedi cael eu hysbysu i'r adran ystadau dri mis ynghynt, ond nid oeddent wedi cael eu tynnu ymaith o'r ward a'u gwaredu. | Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y ceir gwared ar eitemau o'r fath ar unwaith yn unol â Pholisi Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan. | Bydd y prif nyrs yn nodi unrhyw eitemau y gellid cael gwared arnynt ac yn cysylltu â'r tîm rheoli gwastraff i'w symud<br><br>Bydd yr holl staff yn cael eu hatgoffa am y broses o gael gwared ar wastraff | James Bigg | Cwblhawyd |
| 5.56 | Gwelsom fod byrddau gwybodaeth i'r cleifion wedi'u lleoli ym mhrif lwybr y ward a'u bod yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i berthnasau megis enwau nyrsys penodol. Fodd bynnag, roedd y byrddau hefyd yn cynnwys gwybodaeth sensitif am y cleifion megis symudedd cleifion na ddylai fod ar gael i'r holl berthnasau sy'n ymweld â'r ward. | Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gwybodaeth sensitif am y cleifion yn cael ei chadw'n briodol. | Bydd yr hysbysfwrdd statws Cleifion yn cael ei symud i swyddfa'r nyrsys | James Bigg | Cwblhawyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.57 | Roedd gardd gaeedig ar gael i'r cleifion ac roedd y staff yn teimlo bod hyn yn ased i'r ward. Fodd bynnag, gwelsom fod peryglon i bobl sy'n cael trafferthion wrth symud am fod annibendod yn yr ardd. | Dylai'r Bwrdd Iechyd ymgymryd ag asesiad addasrwydd o'r ardd a sicrhau ei bod yn cael ei chlirio fel na fydd unrhyw beryglon i'r cleifion. | Bydd Ystadau'n adolygu'r ardd ac yn ystyried opsiynau i'w wneud yn fwy defnyddiadwy | Ian Fitsall | Medi 2014 |
| 5.58<br>5.59 | Gwelsom nad oedd yr arfer o lanhau a hylendid dwylo yn cydymffurfio'n gyson â Safonau Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan. Gwelsom nad oedd yr holl ardaloedd wedi cael eu glanhau'n drwyadl, roedd biniau llawn a oedd yn cynnwys dillad gwely brwnt yn cael eu symud o un rhan o'r ward i'r llall, a chafodd hen chwistrell ei gadael wrth ochr gwely un o'r cleifion. | Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gydymffurfio â Safonau Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan | Bydd yr Uwch Nyrs a'r Prif Nyrs yn trafod pryderon gyda'r adran cynnal a chadw, ac mae'r aelod o staff a nodwyd eisoes wedi cael hyfforddiant ychwanegol<br><br>Gofynnir i'r adran rheoli heintiau gynnal hyfforddiant pwrpasol yn y maes hwn | Sharron Price<br><br>Vince Saunders | Cwblhawyd<br><br>Medi 2014 |
| 5.61 | Gwelsom nad oedd larwm wrth law nifer o'r cleifion ac felly nid oeddent yn gallu galw am gymorth. | Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod larwm o fewn cyrraedd yr holl gleifion | Mae'r Uwch Nyrs wedi gofyn am ddyfynbrisiau i ailosod y system larwm am ei bod yn hen ac yn anodd ei thrwsio | Ian Fitsall | Gofynnwyd ddyfynbrisiau |
| 5.62 | Gwnaethom nodi nad oedd yr holl staff a oedd yn bresennol ar y ward yn | Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod pob aelod o | Rhaid i'r Prif Nyrs gwblhau archwiliad o fathodynnau adnabod | James Bigg | Wedi'i gyflawni |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | neu ffurfiau swyddogol eraill o'u hadnabod. | bathodyn adnabod gweladwy at ddibenion diogelwch a'u bod yn cael eu herio os nad ydynt yn cydymffurfio â hyn. | Dylid atgoffa'r staff i gyd yn y newyddlen | | |
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | | | | | |